# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | Eiriolwr Dementia |
| Lleoliad: | Hybrid / swyddfa yng Nghaerdydd ar gyfer y swydd fydd yn darparu ledled Caerdydd a Bro Morgannwg |
| Statws Cytundebol y Swydd: | Llawn amser, 35 awr yr wythnos, tymor penodol hyd at 31 Mawrth 2026 |
| Cyflog: | Cyfateb i swydd amser llawn 35 awr yr wythnos £28,222 y flwyddyn |
| Teitl Swydd y Rheolwr Llinell: | Rheolwr Eiriolaeth Rhanbarthol |
| Diben y Swydd: | Darparu eiriolaeth annibynnol i bobl sydd â diagnosis o ddementia a hyrwyddo a datblygu'r gwasanaeth. |
| Prif Gyfrifoldebau: | 1. Darparu eiriolaeth annibynnol, dan arweiniad yr unigolyn, i bobl sy'n byw gyda diagnosis o ddementia, gan eu galluogi i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u pryderon.<br>2. Galluogi pobl sy'n byw gyda diagnosis o ddementia i gyrchu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt ac i gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.<br>3. Rheoli llwyth achosion unigol o ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnal safonau proffesiynol bob amser.<br>4. Bod yn ymwybodol o bryderon diogelu ac arwyddion o gamdriniaeth, gan ddilyn y prosesau adrodd priodol bob tro y bydd materion diogelu yn codi.<br>5. Gweithio yn unol ag egwyddorion darparu eiriolaeth a chydymffurfio â'r Siarter Eiriolaeth Genedlaethol a'r Cod Ymarfer i Eiriolwyr.<br>6. Bod yn gydweithredol yn eich gwaith, gan ddatblygu perthynas gyda phartneriaid lleol, ac yn fewnol o fewn Age Cymru, er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol a gwella a hyrwyddo'r Prosiect Eiriolaeth Dementia.<br>7. Cyfrannu at werthuso a datblygu'r Prosiect Eiriolaeth Dementia gan ddefnyddio adborth cleientiaid a rhanddeiliaid allweddol.<br>8. Defnyddio ymarfer myfyriol a rhoi a derbyn adborth adeiladol er mwyn cefnogi eich datblygiad proffesiynol eich hunan a'ch cydweithwyr.<br>9. Cynrychioli'r Prosiect Eiriolaeth Dementia mewn cyfarfodydd, digwyddiadau rhwydweithio a chyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid. |

| | |
|---|---|
| | 10. Gweithio bob amser yn unol â gwerthoedd Age Cymru a chynrychioli'r gwerthoedd hynny yn broffesiynol ar bob achlysur. |
| **Manyleb Person** | **Mae pob un o'r meini prawf a restrir yn hanfodol, oni bai y nodir yn wahanol.** |
| Profiad | Y gallu i ddangos profiad o:<br><br>• Weithio fel eiriolwr<br>• Cyflawni gwaith achos unigol<br>• Gweithio aml-asiantaethol i gyflawni prosiectau a gwasanaethau llwyddiannus gan gynnwys sefydliadau statudol a gwirfoddol<br>• Cyflwyno sesiynau hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth |
| Gwybodaeth | • Dealltwriaeth o egwyddorion eiriolaeth, gan gynnwys gwahanol fodelau eiriolaeth gan gynnwys eiriolaeth wedi'i chyfarwyddo a heb ei chyfarwyddo.<br>• Dealltwriaeth o effaith dementia ar yr unigolyn ac o hawliau pobl sydd â dementia.<br>• Defnydd o strategaethau cyfathrebu creadigol er mwyn hwyluso cyfathrebu â phobl sydd â dementia.<br>• Dealltwriaeth o ddulliau gweithio a arweinir gan yr unigolyn.<br>• Dealltwriaeth o gynhwysiant a'r angen i drin pobl o bob cefndir ag urddas a pharch yn unol â deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.<br>• Dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig ag oedolion sy'n agored i gamdriniaeth ac esgeulustod a gweithredu cyfraith a gweithdrefnau diogelu yng Nghymru.<br>• Cyfrinachedd cleientiaid a diogelu data. |
| Sgiliau/Galluoedd | • Y gallu i ddefnyddio strategaethau cyfathrebu creadigol er mwyn hwyluso cyfathrebu â phobl sydd â dementia.<br>• Hunangymhelliant, ymagwedd gadarnhaol ac allblyg.<br>• Y gallu i lunio adroddiadau a dogfennau eraill gan roi cryn sylw i fanylder.<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol a dylanwadu arnynt.<br>• Defnyddio Microsoft Office a rhaglenni rheoli achosion.<br>• Ysgogi eich gwaith eich hunan, gan flaenoriaethu gwaith a delio â gofynion/anghenion a buddiannau sy'n cystadlu neu'n groes i'w gilydd.<br>• Y gallu i siarad Cymraeg (Dymunol). |
| Cymwysterau | • Naill ai bod gennych neu eich bod yn gweithio tuag at, neu'n fodlon gweithio tuag at y Cymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol Lefel 4 (Dymunol). |

| | |
|---|---|
| | • Diploma Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) – Llwybrau Anabledd dysgu, Dementia a Chyffredinol (NVQ Lefel 3 gynt) a/neu Gofal Cymdeithasol neu gymhwyster neu brofiad cyfatebol. |
| Amgylchiadau Ychwanegol | Bydd y swydd yn amodol ar ddatgeliad cofnodion troseddol manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).<br><br>Bydd angen i ddeilydd y swydd ddarparu car ar gyfer defnydd busnes a bydd angen teithio ledled Cymru ynghyd â theithiau achlysurol yn ehangach yn y Deyrnas Unedig. Gall fod angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol - bydd y rhain yn cael eu cynllunio ymlaen llaw. |

**Nodiadau:**

- Nid bwriad y disgrifiad swydd hwn yw bod yn rhestr cwbl gynhwysfawr, ond yn hytrach i ddiffinio diben sylfaenol, cyfrifoldebau a dimensiynau'r swydd. Felly, nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn disgrifio unrhyw ddeiliad swydd unigol.
- Yn ogystal â chynnwys y disgrifiad swydd hwn, disgwylir i weithwyr cyflogedig gyflawni'r holl dasgau rhesymol a pherthnasol eraill a ddyrennir gan reolwyr llinell.

| **Cytundeb y Disgrifiad Swydd** | | |
|---|---|---|
| Llofnod Deiliad y Swydd | Enw Mewn Print Bras | Dyddiad |

Chwefror 2016